CYNGOR GWYNEDD

ADRAN 42 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

RHYBUDD O GYNNIG I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL GYNRADD LLANBEDR O 4-11 I 3-11

CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Llanbedr, Llanbedr, Gwynedd LL45 2NW fel ei bod yn newid ystod oedran o 4-11 i 3-11. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2019**.

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 47, capasiti disgyblion yr ysgol yw 81 a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 70.

10 fydd y nifer derbyn yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu. Bydd 9 o leoedd meithrin.

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **13 Chwefror 2019.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Llofnodwyd:

Garem Jackson

Pennaeth Addysg ar ran Cyngor Gwynedd

Dyddiad cyhoeddi: **16 Ionawr 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)

Yn dilyn derbyn cais gan gorff llywodraethol yr ysgol, a chynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig newid ystod oedran Ysgol Llanbedr o 4-11 i 3-11. Golygai hyn ychwanegu dosbarth meithrin i'r ysgol o 1 Medi 2019.